

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Medi 21ain, 2017 yn Neuadd Llanystumdwy.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones; Thomas Prys Jones; Angela Williams; Ceri Jones; Tegid Jones; Sion Aled Jones, Sian Angharad Parry; Naomi Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngorwyr Margaret Griffith, Aled Davies ac Aled Lloyd Evans.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fedi 7fed, 2017.
3. Arwyddwyd cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Cadarnhawyd aelodaeth y Pwyllgorau, bod y Cyngorydd Sian Angharad Parry yn aelod o'r Pwyllgor Safle We a'r Cyngorydd Sion Aled Jones yn aelod o'r Pwyllgor Cynllun Busnes.
6. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.
7. Cyngor Gwynedd.
 1. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cau'r ffordd Dosbarth III gyferbyn â'r eiddo a adwaenir fel Ty'n y Fron, Llanybi, Pwllheli, Gwynedd, gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro. Derbyniwyd.
8. Cyngor Gwynedd – Cynllunio :
 1. Cais Rhif C17/0424/41/LL – Estyniad unllawr i ochr anecs presennol; 1 Gernant, Station Cottages, Llanybi. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Apêl o dan A78 yn erbyn gwrthod cais deiliad tŷ, mân fasnachol neu hysbysebion. Cefnogwyd y cais yma ar Fai 11eg, 2017. Penderfynwyd peidio gwneud sylwadau pellach.
 2. Cais Rhif C17/0854/41/LL – Cais i newid amod 4 o ganiatad cynllunio C15/0751/41/LL er mwyn ymestyn cyfnod gweithredu o 25 mlynedd i 30 mlynedd; Fferm Bryn Bachau, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi. Trwy Ganiatad y Cadeirydd:
 - *3. Cais rhif C17/0906/41/LL – Dymchwel estyniadau presennol a chodi estyniad o'r newydd ar y blaen; Bryn Tirion, Chwilog. Cefnogwyd.

9. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Rhoslan / Ynys - Materion gan y Cyngorydd Anwen Jones.

Tyllau drwg iwan yn y ffordd rhwng Rhos Ddu a Betws Bach. Cwteri wedi cau yno hefyd ar ôl y tywydd diweddar.

Barbio'r ffordd Llwyn yr Eryr / Capel y Beirdd i Bont Bryn Beddau ac i gyfeiriad Chwilog. Loriau yn methu dod drwedd heb falu eu gwydrau edrych a difrodi a chrafu paent oddi ar 'cab' y loriau yn y coed a'r llwynni. Bellach mae'r perchnogion / cwmniau loriau yn gwrthod dod drwy'r darn yma o'r ffordd am Betws Bach a does dim mynediad arall i gerbydau mawr, sef loriau artic gyda dau drelar y tu ôl iddynt a loriau blawd bulk sydd yn uchel ofnadwy. Mae'r mater yma yn rhygnu ymlaen ers blynnyddoedd a dim yn cael ei neud am y peth gan adran y priffyrdd / adran gorfodaeth.

Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, anfon llun i gefnogi'r gwyn ac atgoffa'r Cyngor Sir o ohebiaeth gynharach ynghylch hyn.

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Materion Ariannol

10. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Rhoddodd y Clerc adroddiad lawn ar lafar, bod y gwariant o fewn y gyllideb, nad oes perygl o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled.

11. Archwiliad Ariannol Allanol gan gwmni BDO.

Cymeradwyo ac ardystio ar ôl yr archwiliad a dilyn y camau gweithredu gofynnol.

Rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ail-ardystio'r Ffurflen Flynyddol drwy lofnodi a dyddio'r adran ail-gymeradwyo ac ail-ardystio o dan yr adran cymeradwyo ac ardystio.

Dylai'r ffurflen flynyddol, manylion y dystysgrif a barn archwiliad arfaethedig yn cynnwys eu hadroddiad ar faterion sy'n codi, os oes unrhyw faterion yn cael eu cynnig, gael eu cyflwyno i'r Cyngor.

Dylai'r Cyngor ail-gymeradwyo'r ffurflen flynyddol, nodi cyfeirnod cofnodion a dyddiad y cyfarfod yn yr adran ail-gymeradwyo ac ail-ardystio a rhaid i'r Cadeirydd lofnodi a dyddio'r adran hon yn y blwch perthnasol.

Yn dilyn hyn gellir anfon y ffurflen yn ôl at yr Archwilydd Allanol er mwyn iddynt allu ardystio'r Ffurflen Flynyddol a chyhoeddi Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru..

Penderfynwyd derbyn, dilyn y camau er mwyn cael cwblhau'r Archwiliad cyn diwedd mis Medi, yn ôl y gyfraith.

12. Anfonebau angen eu talu:

Cyflog chwarter y Clerc, Gorffennaf/Awst/Medi 2017, i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM;

Cyflog sylfaenol gross; 30 awr x 3 mis x £10.467c.= £942-

a. Cyllid a Thollau EM; £942- x 20% = £188.40c; taliad siec rhif 100964.

Penderfynwyd ei dalu.

b. cyflog net = £753.60c; taliad siec rhif 100965. Penderfynwyd ei dalu.

c. Costau Chwarterol y Clerc £117.38c; taliad siec rhif 100966. Penderfynwyd ei

dal.

13. Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod Pwyllgor Cynllun Busnes, nos Iau, Hydref 5ed, 2017 am 7pm yn Neuadd Llanystumdwy.

*Trwy Ganiatad y Cadeirydd:

14. Cyngor Gwynedd, Adran Amgylchedd Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Arwydd Maes Carafanau Tyddyn Cethin, Rhoslan. Derbyniwyd yr ateb bod yr Adran yn edrych i mewn i'r ymholiad ac fe'n hysbysir maes o law o ganlyniadau'r archwiliad ynghyd ag unrhyw weithredu pellach os penderfynir felly.

15. Cyngor Gwynedd, Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

16. Gohebiaeth oddi wrth y Cynghorydd Craig ab Iago ynghylch Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Trafodwyd yr ohebiaeth a phenderfynwyd ateb drwy ofyn beth oedd polisi cyfnewid tai Cyngor Gwynedd?

17. Llywodraeth Cymru – Derbyniwyd yr ohebiaeth yr anelant i ymateb i lythyr y Cyngor yma o fewn 17 diwrnod gwaith.

18. Ciosg Llangybi. Mae'r ciosg bellach wedi cael ei brynu, mae'r arwyddion yn dweud nad BT sydd yn gyfrifol amdano bellach ond y Cyngor yma, yn eu lle. Bydd angen hysbysu'r gwasanaethau brys o hyn hefyd. Does dim hawl i gyhoeddi manylion y gytuned yn y wasg. Mae yswiriant y Cyngor yma yn rhoi cover public liability i'r ciosg; cyfrifoldeb y pwyllgor lleol ydi yswiriant y diffibriliwr.

Mae copi o'r gytundeb pryniant a gwerthiant rhwng y Cyngor yma a BT a llythyr yn nodi'r uchod wedi ei anfon at y pwyllgor lleol.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.